# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Pentrefoelas**

**Ysgol Gynradd Pentrefoelas**
**Pentrefoelas**
**Betws-y-coed**
**LL24 0LE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Cylch Meithrin Pentrefoelas

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Ysgol Feithrin Cylch Ti a Fi Pentrefoelas |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers ailgofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Maent yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn ystod eu profiadau chwarae a dysgu. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn, maent yn gwneud ffrindiau ac maent yn gyfarwydd â'r drefn arferol. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau ac â'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd briodol.

Mae gan y staff ddealltwriaeth briodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi gofal mewn ffordd sy'n garedig a chynnes. Mae'r staff yn trefnu profiadau chwarae a dysgu addas.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Mae digon o ardaloedd chwarae dan do i'r plant allu symud yn rhydd. Mae'r teganau, yr adnoddau a'r cyfarpar yn briodol i oedran y plant. Mae ardal chwarae awyr agored ar gael.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n briodol. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y safonau.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau gwneud penderfyniadau er mwyn dilyn eu diddordebau personol. Maent yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da o gyflawniad a hunan-barch uchel.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau cyflwyno eu hunain a dangos yr hyn y maent yn hoffi chwarae ag ef. Mae'r plant yn siarad yn llawn cyffro am eu hoff ffrwythau ac yn defnyddio propiau bwyd er mwyn dangos pa rai y maent yn eu hoffi fwyaf. Maent yn gofyn yn gwrtais am laeth i'w yfed yn ystod amser byrbryd, ac mae'r staff yn ymateb ar unwaith.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch gan staff cyfeillgar. Maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd a gwnaethant ddangos sut maent yn golchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta. Mae'r plant yn paratoi eu hunain yn dda pan fydd yn amser mynd adref, er enghraifft, gan wisgo eu cotiau eu hunain a chasglu eu heiddo personol.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn mwynhau'r agwedd gymdeithasol ar amser byrbryd ac yn eistedd yn aeddfed wrth y bwrdd. Mae'r plant yn ymarfer defnyddio moesau da ac yn dysgu sut i rannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, mae ffrindiau yn cymryd eu tro i roi'r siapiau ffrwythau pren ar ddarn o edau, ac yn rhannu'r torwyr amrywiol er mwyn gwneud marciau ar yr eitemau y maent wedi'u creu gan ddefnyddio'r toes chwarae. Mae'r plant yn dysgu am empathi a charedigrwydd. Er enghraifft, dangosodd plentyn sut roedd yn gofalu am ei fabi dol, gan roi maldod i'r ddol a'i lapio'n gynnes cyn ei rhoi yn y pram.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do. Er enghraifft, siaradodd y plant yn llawn cyffro am baentio eu hŵyn a oedd wedi cael eu torri allan o gardfwrdd. Clywsom drafodaethau bywiog rhwng ffrindiau am yr ŵyn sydd ganddynt ar eu ffermydd teuluol. Soniodd y plant wrth y staff am yr ŵyn â phennau du a chyrff gwyn, a gwnaethant ddangos sut roeddent wedi paentio eu hŵyn crefft i edrych fel y rhai ar eu fferm. Gwnaeth y plant fwynhau'r gweithgaredd lle cawsant gyfle i ddysgu am fywyd broga. Gwnaethant archwilio'r propiau a'r lluniau cysylltiedig er mwyn dod â'r stori a'r dysgu'n fyw. Mae'r plant yn mwynhau dysgu am yr hyn sy'n digwydd i'r coed yn ystod tymor y gwanwyn, a gwnaethant ddefnyddio eu dwylo i ddangos sut mae'r blodau'n deffro ac yn blodeuo.

Mae'r plant yn mwynhau gwneud eu penderfyniadau eu hunain am yr hyn yr hoffent chwarae ag ef ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain yn briodol. Roedd ffrindiau yn mwynhau arbrofi gyda cheir rolio ar draws y llawr er mwyn gweld pa un fyddai'n ennill y ras. Mae'r plant yn bwydo eu hunain yn dda yn ystod amser byrbryd ond mae cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth ymhellach yn cael eu colli gan fod y staff yn gweini eu

bwyd a'u diod iddynt. Mae'r plant yn mwynhau chwarae annibynnol yn y gornel gartref, gan ddatblygu eu dychymyg yn dda wrth iddynt baratoi pryd o fwyd, a threfnu darnau pitsa yn ofalus ar hambwrdd.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda. Maent yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Mae’r staff yn gwerthfawrogi ymdrechion y plant ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

Mae'r staff yn deall y rhan fwyaf o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'r gweithdrefnau diogelu Mae'r staff yn cofnodi presenoldeb y plant a'u presenoldeb nhw eu hunain fel rhan o'r arferion diogelu ehangach er mwyn sicrhau bod archwiliad clir o bwy sy'n gofalu am ba blentyn ac ar ba amseroedd yn ystod y dydd. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo, ond nid ydynt bob amser yn dilyn canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau yn llawn er mwyn sicrhau bod y plant yn datblygu eu hylendid personol yn effeithiol. Er enghraifft, nid oedd y staff yn newid y dŵr yn y sinc ar ôl i bob plentyn olchi ei ddwylo. Pan drafodwyd hyn â'r person â chyfrifoldeb, cymerodd gamau ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas i ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod y staff a'r plant yn cwblhau ymarferion tân gyda'r ysgol gysylltiedig, ond nid oedd yr ymarferion hyn wedi'u cofnodi i ddangos eu bod wedi cael eu cynnal. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r staff yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau sylfaenol, ac roedd y rhieni / gofalwyr wedi llofnodi'r cofnodion hyn er mwyn dangos eu bod wedi cael gwybod am y ddamwain neu'r digwyddiad. Ar y cyfan, mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn briodol; maent yn darparu byrbrydau iach ac yn cynnig dewis o laeth neu ddŵr i'w yfed. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw gyfleoedd i'r plant chwarae yn yr awyr agored er mwyn datblygu eu sgiliau corfforol yn yr awyr iach.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd cartrefol ac yn rhoi maldod i'r plant pan fo angen er mwyn rhoi cysur a thawelwch meddwl iddynt. Maent yn annog y plant i fod yn gwrtais ac i ddefnyddio moesau da. Mae'r staff yn ymateb i geisiadau'r plant mewn modd cyson ac amserol, ac maent yn sensitif i'w hanghenion unigol.

Mae'r staff wrthi'n dechrau datblygu ffordd fwy ymatebol o gynllunio gweithgareddau ac maent wedi dechrau rhoi system newydd ar waith er mwyn gallu olrhain cynnydd y plant. Dywedodd y staff wrthym sut y byddant yn defnyddio'r arsylwadau hyn er mwyn helpu'r plant i gymryd y camau nesaf o ran eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r staff yn trefnu profiadau dysgu diddorol i'r plant. Er enghraifft, trefnodd y person â chyfrifoldeb

weithgaredd rhyngweithiol hyfryd i addysgu'r plant am y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r tymhorau ac am fywyd gwyllt. Defnyddiodd amrywiaeth o bropiau er mwyn dod â dysgu'r plant yn fyw. Arweiniodd y staff drafodaeth fywiog â'r plant am fywyd ar y fferm, gan helpu i ddatblygu eu sgiliau iaith a chyfathrebu yn dda.

| Yr Amgylchedd | Digonol |
|---|---|

Mae'r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd croesawgar, diogel a glân lle gall y plant chwarae a dysgu mewn ffordd addas. Mae ardal chwarae awyr agored ar gael, ond nid oedd yn cael ei defnyddio yn ystod ein hymweliad ac roedd y cyfarpar, y teganau a'r adnoddau wedi cael eu storio yn y sied.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau asesiadau risg er mwyn nodi'r peryglon posibl i'r plant yn briodol, a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r gwiriadau iechyd a diogelwch wedi'u cynnal. Fodd bynnag, nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi cyflwyno'r dystysgrif ar gyfer y gwiriad diogelwch diweddaraf o'r system wresogi. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut i ddelio ag argyfyngau. Roedd dyddiad defnyddio rhai eitemau yn y blwch cymorth cyntaf wedi mynd heibio. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn briodol yn ystod eu gweithgareddau chwarae a dysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod cynllun yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw yn ddirwystr. Ceir ardal ddynodedig i'r plant storio eu heitemau personol ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Mae arddangosiad hardd o waith celf y plant, ac mae hyn yn dangos i'r plant bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r teganau a'r adnoddau yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n cael gofal, ac mae dodrefn o faint priodol ar gael i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer storio'r cyfarpar a'r adnoddau yn yr ardal dan do yn addas a'u bod yn hygyrch i'r plant. Maent yn gwella ymwybyddiaeth y plant o'u treftadaeth Gymreig drwy amrywiaeth o arddangosfeydd ar y wal. Nid yw'r ardaloedd dysgu wedi'u diffinio'n ddigon glir i helpu'r plant i ddatblygu eu gwybodaeth, eu chwilfrydedd naturiol a'u diddordebau. Ceir rhai adnoddau naturiol ac adnoddau wedi'u hailgylchu i ddatblygu sgiliau synhwyraidd, sgiliau iaith, sgiliau rhifedd a sgiliau hunanymwybyddiaeth y plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n briodol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y safonau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, ond nid yw'r rhain wedi cael eu hadolygu na'u diweddaru'n ddiweddar. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cyflwyno'r datganiad hunanasesu gwasanaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac mae'n rhoi gwybod i AGC am unrhyw ddigwyddiadau o bwys yn y lleoliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg ac maent yn gwneud ymdrech weithredol i hyrwyddo'r iaith ac i hyrwyddo diwylliant Cymru.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal yn llawn gwybodaeth ac yn myfyrio ar yr hyn y mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda, beth sydd angen ei wella, a'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cynnwys safbwyntiau'r staff na safbwyntiau asiantaethau allanol er mwyn gwerthuso'r lleoliad yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ganddyn nhw a'r staff dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r unigolyn cyfrifol wedi gwella ffeiliau cyflogaeth y staff, ond nid yw pob ffeil yn cynnwys y wybodaeth ofynnol i gadarnhau addasrwydd y staff. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi coladu'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal sesiynau goruchwylio yn anffurfiol â'r staff er mwyn trafod eu hymarfer, hyfforddiant, pryderon diogelu, a'u datblygiad. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnod o'r trafodaethau un i un hyn. Mae cofnod yn cael ei gadw o arfarniadau blynyddol y staff, a disgwylir i'r arfarniadau ar gyfer eleni gael eu cynnal maes o law.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni / gofalwyr, a gyda'r ysgol a'r gymuned. Dywedodd y rhieni / gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn '*very happy with the setting*' a bod eu plant yn meithrin '*positive self-confidence*'. Dywedodd y rhieni / gofalwyr, '*staff are fantastic*', '*friendly*' ac '*approachable*'. Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos a'r ysgol gysylltiedig er mwyn helpu'r plant i drosglwyddo i addysg lawn amser, gan roi'r cyfle iddynt ymgyfarwyddo ag amgylchedd yr ysgol, a dod i adnabod y staff a'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn annog cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned ac o ganlyniad, mae'r plant wedi cymryd rhan mewn teithiau cerdded lleol ac wedi cymryd rhan yn Eisteddfod yr ysgol er mwyn helpu i wella eu hymwybyddiaeth a'u sgiliau cymdeithasol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 38 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob 6 mis o leiaf, gan gydnabod bod plant yn cael budd o ymarfer gweithdrefnau'n amlach. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y caiff y rhain eu cofnodi er mwyn dangos eu bod wedi cael eu cynnal. | Newydd |
| 28 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei choladu yn ffeiliau cyflogaeth y staff er mwyn cadarnhau addasrwydd yr aelod staff ar gyfer ei rôl yn gofalu am blant. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Trefnu ardaloedd dysgu a phrofiadau wedi'u diffinio'n glir i helpu'r plant i ddatblygu eu gwybodaeth, eu chwilfrydedd naturiol a'u diddordebau. |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod y cofnodion o ddamweiniau a digwyddiadau yn fanwl. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Ffurfioli sesiynau goruchwylio un i un â staff er mwyn nodi ansawdd eu hymarfer, ac i drafod unrhyw bryderon diogelu. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Adolygu polisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/05/2024